



**Cyd-Bwyllgor ERW**  
**Dydd Mercher, 3ydd Ebrill, 2019**  
**Y Llwyfan, College Road, Carmarthen**  
**10.00 yb - 12.35 yp**

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn [Cadair], Cyngor Sir Ceredigion

|                               |   |
|-------------------------------|---|
| Y Cyngorydd Glynog Davies     | Cyngor Sir Gâr  |
| Y Cyngorydd Myfanwy Alexander | Cyngor Sir Powys  |
| Y Cyngorydd Rob Jones         | Cyngor Castell-nedd Port Talbot                         |
| Y Cyngorydd David Simpson     | Cyngor Sir Penfro                                       |
| Y Cyngorydd Jennifer Raynor   | Cyngor Abertawe   |
| Mr Eifion Evans               | Cyngor Sir Ceredigion                                   |
| Mr Steven Phillips            | Cyngor Castell-nedd Port Talbot                         |
| Ms Caroline Turner            | Cyngor Sir Powys  |
| Mr Ian Westley                | Cyngor Sir Penfro                                       |
| Ms Kate Evan-Hughes           | Cyngor Sir Penfro (ERW - Dirprwy Cyfarwyddwr Arweiniol) |
| Mr Gareth Morgans             | Cyngor Sir Gâr  |
| Mr Mark Sheridan              | Cyngor Abertawe   |
| Mr Geraint Rees               | Tîm Uwch-arweinwyr ERW                                  |
| Mr Jonathan Haswell           | Cyngor Sir Penfro (ERW - Swyddog Adran 151)             |
| Ms Elin Prysor                | Cyngor Sir Ceredigion (ERW - Swyddog Monitro)           |
| Mr Ian Eynon                  | Cyngor Sir Penfro (Dirprwy Swyddog Adran 151)           |
| Mr Ceri Davies                | Cyngor Sir Penfro (HR)                                  |
| Mr Chris Llewelyn             | CLILC   |
| Mr Steve Vincent              | Llywodraeth Cymru                                       |
| Ms Ruth Conway                | Llywodraeth Cymru                                       |
| Ms Katie Morgan               | Uwch-cyfrifydd, ERW                                     |
| Mr Clive Phillips             | ESTYN   |
| Mrs Jessica Laimann           | Cyngor Sir Gâr (Gwasanaethau Democrataidd)              |



## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd Emlyn Dole (Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cyngorydd Rosemarie Harris (Cyngor Sir Powys), y Cyngorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe), Mr. Phil Roberts (Cyngor Abertawe), Mark James (Cyngor Sir Caerfyrddin), a Mr. Mark Campion (ESTYN).

Croesawodd y Cadeirydd Ms Caroline Turner (Cyngor Sir Powys) i'r Cyd-bwyllgor.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. CYNLLUN BUSNES 2019-2020

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor y Cynllun Busnes ar gyfer 2019-20, a oedd yn amlinellu'r rhaniad swyddogaethau rhwng y tair haen yn y system ranbarthol - Rhanbarth, Is-ranbarth/Awdurdod Lleol ac Ysgolion.

Cynghorwyd y Cyd-bwyllgor bod dwy brif ran i'r Cynllun Busnes. Roedd y tudalennau pinc yn amlinellu'r prif waith sy'n gysylltiedig â nodau ERW, gan gynnwys y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, sgiliau'r gweithlu, datblygu arweinwyr, ysgolion cryf a chynhwysol a chefnogi system sy'n gwella ei hun. Dilynwyd hyn gan gynlluniau gweithredol rhanbarthol/lleol manwl ar gyfer pob gweithgaredd yn ymwneud â nodau cyffredinol ERW. Byddai'r Cynllun Busnes yn cael ei ddiweddarau mewn ymateb i adborth gan arweinwyr Awdurdodau Lleol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Cynllun Busnes ar y sail y gellir ei ddiwygio/ei newid.**

## 4. ARIANNU 2019-2020

Bu'r Cyd-bwyllgor yn trafod yr Adroddiad ar Gyllideb 2019-20, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Cyllideb y Tîm Canolog 2018-19 a 2019-20
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Dilyniant 2019-20
- Grant 2019-20
- Cyllideb a Ariennir gan Grant 2019-20
- Risgiau
- Cronfeydd wrth gefn
- Argymhellion

Dywedodd y Cadeirydd fod copïau o ohebiaeth mewn perthynas â'r gyllideb wedi'u cylchredeg yn y cyfarfod. Roedd hyn yn cynnwys llythyr at y Gweinidog Addysg, dyddiedig 11 Chwefror 2019, yn gofyn i'r Gweinidog neilltuo oddeutu £790k o arian



*(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)*

grant i gyflogi staff canolog, ac ymatebion y Gweinidog o 1 Mawrth 2019 a 2 Ebrill 2019. Roedd ymateb y Gweinidog ar 2 Ebrill yn nodi y gallai'r Cyd-bwyllgor godi hyd at £500k o'r cyllid grant presennol ar yr amod bod Awdurdodau Lleol yn mynd i'r afael â'r diffyg a bod cyfanswm yr arian yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ohebiaeth hefyd yn cynnwys:

- Llythyr gan Gyngor Sir Penfro, dyddiedig 20 Mawrth, yn gofyn yn eu rôl fel Awdurdod Cyflogi a Deiliad Cyllideb am sicrwydd gan bob awdurdod yn y bartneriaeth;
- Llythyr gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, dyddiedig 27 Mawrth 2019, yn rhoi hysbysiad o'u bwriad i adael ERW erbyn 31 Mawrth 2020 ond yn cadw'r hawl i dynnu'r hysbysiad hwnnw yn ôl os gellid datrys problemau;
- Datganiad y Cadeirydd i'r wasg mewn ymateb i hysbysiad Castell-nedd Port Talbot.

Cynghorwyd y Cyd-bwyllgor fod yr Adroddiad ar y Gyllideb yn union yr un fath â'r hyn a gafwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor gan mai dim ond neithiwr y cafwyd cadarnhad gan y Gweinidog ynghylch y defnydd o gyllid grant.

Roedd y cwestiynau a sylwadau a godwyd ynghylch yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch Ysgolion sy'n Destun Pryder, cynghorwyd y Cyd-bwyllgor bod angen cynnydd yn y gyllideb er mwyn sefydlu model cynaliadwy ar gyfer ysgolion sy'n helpu ysgolion a bod hyn yn fusnes craidd i ERW. Roedd nifer yr ysgolion a ddsbarthwyd fel rhai ambr neu goch wedi gostwng o 165 i 87 o dan ERW ac roedd categoreddio ysgolion yn ffordd o ddyrannu cymorth.

Gwnaed nifer o sylwadau yn mynegi pryder bod ymateb y Gweinidog yn gadael bwlch ariannu o £290k, y gallai fod yn rhaid ei gyfannu drwy gynyddu cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol. Dywedodd Castell-nedd Port Talbot, er y byddent yn aros yn Aelodau o ERW tan 31 Mawrth 2020, na fyddent yn cefnogi cynnydd mewn cyfraniadau gan Awdurdodau Lleol. Cadarnhaodd Castell-nedd Port Talbot y byddent yn talu eu cyfraniadau sy'n ddyledus ar gyfer 2018-19 a'r rheiny ar gyfer 2019-20 ar yr un lefel.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyllid staff, dywedodd Mr Geraint Rees fod £2.5.m, o'r blaen, wedi cael ei ddefnyddio i secondio 56 o swyddi ERW cyfwerth ag amser llawn. Roedd y rhain yn cael eu rheoli'n lleol gyda thaliadau'n cael eu hanfonebu trwy ysgolion. Dywedodd y Swyddog Adran 151 nad oedd manylion am ffynhonnell yr arian wedi'u cynnwys yn yr adroddiad presennol ar y gyllideb, ond y gellid darparu manylion pellach ar gais y Pwyllgor. Cynghorwyd y Cyd-bwyllgor bod y Tîm Cyllid wedi gweithredu'n briodol o safbwynt Archwilio a bod adroddiadau cyllideb/monitro wedi'u paratoi a'u cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn ôl y gofyn. Er bod y Tîm Cyllid wedi cofnodi ac wedi adrodd ar ffrydiau ariannu newydd, gwnaed penderfyniadau ynghylch ffynhonnell ac awdurdodiad cyllid gan y Rheolwr-gyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwyr Addysg. Awgrymwyd y gallai'r Tîm



*(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)*

Archwilio Mewnol ddarparu adolygiad o ffynhonnell, awdurdodiad a chwantwm y cronfeydd perthnasol ac y gellid hysbysu Swyddfa Archwilio Cymru o'r adolygiad.

Gwnaed sylw yn awgrymu, pe bai'r defnydd o £2.5m ar gyfer secondio staff ERW wedi bod yn cydymffurfio â'r Telerau a'r Amodau ar gyfer cyllid grant, byddai hyn yn awgrymu bod y telerau ac amodau eisoes yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol ac efallai na fyddai angen Awdurdodiad Gweinidogol i neilltuo cyllid grant er mwyn cyflogi staff canolog. Awgrymwyd y gellid canfod hyblygrwydd y telerau a'r amodau fel rhan o'r Adolygiad Archwilio Mewnol.

Gwnaed sylw yn awgrymu y gellid anfon llythyr at y Gweinidog yn diolch iddi am yr ymrwymiad i neilltuo hyd at £500k, ond gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol gynyddu eu cyfraniadau. Gallai'r llythyr hysbysu'r Gweinidog o'r cynlluniau ar gyfer Adolygiad Archwilio Mewnol i edrych ar ffynhonnell, awdurdodiad, cwantwm a thelerau ac amodau'r trefniadau ariannu staff presennol.

Awgrymwyd hefyd y gallai'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y gyllideb ar gyfer 2019-20 mewn egwyddor, yn amodol ar gadarnhad y gallai'r bwloch ariannu ar gyfer costau staffio gael ei gyfannu trwy gyllid grant. Awgrymwyd y gallai'r Cyd-bwyllgor hysbysu'r Gweinidog am y penderfyniad hwn yn y llythyr a gofyn iddi ymateb o fewn 14 diwrnod.

Trafodwyd fformiwlâu dosbarthu'r grant a dywedodd y Swyddog Adran 151 mai dim ond enghraifft oedd y rhain ac y gellid dewis unrhyw amrywiad ar y fformiwlâu. Gwnaed ymholiad pellach yn gofyn am eglurhad ynghylch pwy fyddai'n penderfynu pa fformiwlâ i'w defnyddio a dywedodd y Swyddog Adran 151 y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud gan y Rheolwr-gyfarwyddwr a'r chwe Chyfarwyddwr Addysg.

Dywedodd Mr. Geraint Rees mai heddiw oedd y dyddiad hwyraf posibl i ddechrau'r broses recriwtio ac na ellid dechrau recriwtio ar sail cymeradwyaeth amodol y Cyd-bwyllgor ar y gyllideb gan fod y penodiadau dan sylw yn rhai parhaol. Roedd y diffyg sicrwydd yn cael effaith negyddol ar iechyd a lles staff a byddai oedi pellach yn peryglu'r broses o weithredu'r strwythur newydd yn llwyddiannus. Dywedodd hefyd ei bod yn ansicr a oedd y telerau a'r amodau yn darparu'r hyblygrwydd i gyflogi staff canolog. Nododd cynrychiolydd ESTYN, pe bai'r materion recriwtio hyn yn cael eu gwireddu, y byddent yn pryderu'n sylweddol.

Gwnaed sylw yn awgrymu y gallai'r broses recriwtio ddechrau heddiw pa bai ymgeiswyr yn cael eu hysbysu bod eu penodiad yn amodol ar gadarnhad Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod lefel yr hyder yn ddigonol i ddechrau recriwtio ac y byddai'n rhaid rhannu unrhyw gostau dileu swyddi posibl rhwng Awdurdodau Lleol yn unol â'r Cytundeb Cyfreithiol.

## **PENDERFYNWYD**



- 4.1. Cymeradwyo, mewn egwyddor, Gyllideb y Tîm Canolog ar gyfer 2019-20, Cyfraniadau Awdurdodau Lleol a'r sail ar gyfer eu cyfrifo, a fformiwlâu dosbarthu'r arian;
- 4.2. Cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol ERW i awdurdodiad, ffynhonnell (£2.5m o swm RSIG), cwantwm, a thelerau ac amodau trefniadau cyllido staff Arweinwyr Dysgu (56 Cyfwerth ag Amser Llawn). Hysbysu Swyddfa Archwilio Cymru o'r adolygiad;
- 4.3. Ysgrifennu llythyr at y Gweinidog addysg yn cynnwys y canlynol:
  - i. Hysbysiad o gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor mewn egwyddor i Gyllideb 2019-20;
  - ii. Cais i'r Gweinidog egluro a yw telerau ac amodau'r cyllid grant sydd ar gael yn rhoi'r hyblygrwydd i dalu am gostau staffio canolog;
  - iii. Cais i'r Gweinidog ymateb o fewn 14 diwrnod oherwydd brys;
- 4.4. Bod y Rheolwr-gyfarwyddwr yn bwrw ymlaen â gweithredu'r strwythur newydd, yn amodol ar y gwaith pellach a chadarnhad yn 4.1. a 4.3 uchod, gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau erbyn diwedd tymor yr haf.

## 5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 13 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

## 6. GWYBODAETH ARIANNOL AR STAFFIO

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 5 uchod, y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod am fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a allai ddatgelu enwau unigolion a gwybodaeth berthnasol i drafodaethau/ymgynghoriadau sy'n ymwneud â'r gweithlu.

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ar wybodaeth am staffio ariannol, a oedd yn darparu gwybodaeth am gyllid Staff Tîm Canolog posibl yn 2019-20. Roedd yr adroddiad yn cynnwys strwythur staffio posibl ERW o Ebrill 2019 a'r ymrwymadau staffio presennol a fyddai'n treiglo i'r flwyddyn ariannol 2019-20.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** nodi'r adroddiad.

[Noder: ar ôl ystyried yr eitem uchod, aildderbyniwyd y cyhoedd i'r cyfarfod]

## 7. APWYNTIO CYFARWYDDWR ARWEINIOL A'R PRIF WEITHREDWR ARWEINIOL DROS DO



Hysbyswyd y Cyd-bwyllgor bod yr enwebiadau canlynol wedi dod i law:

- Prif Weithredwr Arweiniol Dros Dro: Mr Eifion Evans (Cyngor Sir Ceredigion)
- Cyfarwyddwr Arweiniol: Ms Kate Evan-Hughes (Cyngor Sir Penfro)

Cynghorwyd y Cyd-bwyllgor y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal mewn perthynas â dosrannu rolau a chyfrifoldebau yn y consortiwm.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod**

**7.1. Mr Eifion Evans yn cael ei benodi'n Brif Weithredwr Arweiniol Dros Dro;**

**7.2. Ms Kate Evan-Hughes yn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Arweiniol.**

**8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD  
AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS  
YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill y dylid eu hystyried fel mater o frys.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

